

Anfon y neges **gywir**



CyfathrebuCaerffili

Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
2019 - 2022



Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld
A greener place to live, work and visit



CYNNWYS

BETH YW'R DDOGFEN HON?	1
DULL GWEITHREDU GWAHANOL...	2
AGENDA NEWYDD GYFFROUS	2
RHAGAIR GAN YR ARWEINYDD	3
CYFLWYNIAD	4
PWY YDYM A'R HYN A WNAWN	5
EIN HAMCANION CYFATHREBU	8
SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN?	8
EIN HYMRWYMIAD CYFATHREBU 'YN HOLLOL GLIR'	9
EGWYDDORION SY'N SAIL I'R STRATEGAETH	10
DULL CYFATHREBU DRWY YMGYRCHU	11
DATBLYGU EIN HYMGYRCHOEDD CYFATHREBU INTEGREDIG AR GYFER 2019-2023	12
DDYLUNIAD DIGIDOL	13
SUT MAE'R STRATEGAETH HON YN CYD-FYND Â'R DARLUN EHANGACH?	14
GWELLA CYFATHREBU MEWNOL	15
CEFNOGI'R PORTFFOLIO GWELLA BUSNES	16
GWERTHUSO A MESUR	18
FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL	18
MANYLION CYSWLLT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH	18

BETH YW'R DDOGFEN HON?

Datblygwyd y Strategaeth Gyfathrebu hon er mwyn helpu i ddiffinio'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgysylltu â'n trigolion, ein partneriaid, ein busnesau a'n holl gynulleidfaoedd allweddol eraill.

Fel cyngor, rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau gwerth am arian o ansawdd uchel i drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae effeithiolrwydd y ffordd rydym yn cyflawni ein gweledigaeth yn dibynnu, i raddau helaeth, ar ansawdd ein cyfathrebu a'n hymgysylltu.

Gall pob agwedd ar ein cyfathrebu a'n hymgysylltu effeithio ar waith ac enw da y Cyngor. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r dull gweithredu y byddwn yn ei ddefnyddio i sicrhau bod ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu yn addas at y diben ac yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Mae hefyd yn diffinio'r ffordd y byddwn ni fel sefydliad yn gwrandao ar yr hyn y mae ein cynulleidfao yn ei ddweud wrthym ac yn ymateb iddo.

Mae'r strategaeth yn nodi egwyddorion o ran y modd y byddwn yn cyfathrebu'n agored ac yn dryloyw, mewn ffordd syml ac annhechnegol y bydd pobl yn gallu ei deall.

Mae hefyd yn nodi'r amrywiaeth o sianeli ac adnoddau cyfathrebu y byddwn yn eu defnyddio i sicrhau bod ein negeseuon allweddol yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.



DULL GWEITHREDU GWAHANOL...

Mae Llywodraethau Lleol yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, sy'n debygol o gynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Felly, mae'n bosibl y bydd cwmphas gweithgarwch cyfathrebu'r awdurdod yn gyfyngedig o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ond ein her yw dod o hyd i ffyrdd newydd, arloesol a chost-effeithiol o wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.

Mae'r dirwedd gyfathrebu hefyd wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac nid yw'r hen ddull o 'anfon pethau allan' yn ddigon da yn yr 21ain ganrif.

Mae'n rhaid i ni ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd mewn ffordd ystyrlon drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o sianeli a thechnegau cyfathrebu (digidol a thraddodiadol) er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y sefydliad.

Mae angen i'n dull gweithredu fod yn fwy 'dynol' a sgysiol, gan adlewyrchu tôn ac arddull cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol yn well.

Yn hytrach na chael ein hysgogi gan ofynion y sefydliad mewn modd ad-hoc, ymatebol, mae angen i ni fabwysiadu dull cyfathrebu strategol sy'n seiliedig ar ymgyrchu sy'n gyson â blaenoriaethau allweddol a dyheadau'r Cyngor.

Mae hefyd angen i ni newid tôn ein negeseuon er mwyn sicrhau bod ein trigolion yn ymwybodol o'r penderfyniadau anodd sydd i ddod. Bydd rhai o'r penderfyniadau hyn yn amhoblogaidd a bydd yn rhaid i ni ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol – os o gwbl. Felly, mae'n bwysig bod ein cymuned yn deall y rhesymau dros hyn. **Mae angen i ni fynd i'r afael â chamsyniadau, herio gwybodaeth anghywir a helpu i 'gywiro gwallau' lle bynnag y gallwn.**

AGENDA NEWYDD GYFFROUS

Yn ogystal â'r heriau y tynnwyd sylw atynt uchod, mae yna hefyd nifer o gyfleoedd cyffrous i'r awdurdod ddarparu gwasanaethau mewn ffordd newydd yn y dyfodol, ac mae angen i gyfathrebu effeithiol fod yn rhan allweddol o'r broses hon.

Bydd Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dod â chyfleoedd mawr o ran buddsoddi a chyflogaeth i Fwrdeistref Sirol Caerffili, ac mae'n hollbwysig bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei ystyried yn bartner allweddol yn y fenter newydd gyffrous hon. Mae angen i ni gyfleu pwysigrwydd y bartneriaeth hon i'n cymunedau a thynnu sylw at y buddiannau y bydd yn eu cyflwyno i'n hardal yn y dyfodol.

Mae'r dirwedd ddigidol hefyd yn newid yn gyflym ac mae nifer o gyfleoedd newydd a chyffrous i wneud pethau'n wahanol o ran cyfathrebu, ymgysylltu, rhyngweithio â chwsmeriaid a darparu gwasanaethau. Bydd angen i'r Tîm Cyfathrebu fod ar flaen y gad o ran yr agenda hon.

RHAGAIR GAN YR ARWEINYDD

"Credaf yn gryf ein bod yn awdurdod lleol gwych sydd wedi meithrin enw da o ran darparu gwasanaethau effeithiol i bob rhan o'r gymuned o'r 'crud i'r bedd'.

Mae angen i ni ddathlu ein llwyddiant, hyrwyddo ein gwaith da a sicrhau ein bod yn gwrando ar y gymuned, fel y gallwn addasu i ddiwallu eu hanghenion sy'n newid yn barhaus. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn amddiffyn ein henw da ac yn achub ar bob cyfle i'w hyrwyddo. Felly, mae'n hollbwysig bod gennym Strategaeth Gyfathrebu gadarn ar waith sy'n darparu ffocws a chyfeiriad clir i'r awdurdod dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt.


Yn ogystal â hyn, mae'r ffordd rydym yn cyfathrebu fel cymdeithas hefyd yn newid yn gyflym ac rydym yn gweld mwy a mwy o bobl yn defnyddio sianeli digidol a chymdeithasol. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gallu newid gyda'r amser a sicrhau bod ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu yn adlewyrchu'r tueddiadau hyn sy'n dod i'r amlwg.

Wedi dweud hyn, mae hefyd angen i ni sicrhau ein bod yn cyfathrebu mewn ffordd gynhwysol. Felly, caiff ein gweithgarwch cyfathrebu ei deilwra i ddiwallu anghenion a galluoedd amrywiol pawb yn ein cymuned.

Bydd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu hon yn sicrhau bod gennym ddull gweithredu ystyrlon sydd wedi'i gynllunio'n dda o ran ein gweithgarwch cyfathrebu yn y dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod gan y tîm gyfeiriad a diben clir fel y gall gefnogi anghenion y sefydliad ar bob lefel.

Mae gennym Dîm Cyfathrebu clodwiw sydd wedi helpu i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gefnogi'r sefydliad drwy gyfnodau anodd iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r ddogfen hon yn lasbrint ar gyfer ein hymrwymiad i gyfathrebu yn y dyfodol a bydd yn sail i waith y tîm wrth symud ymlaen."



Y Cynghorydd David Poole
Arweinydd y Cyngor



CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyfathrebu cyson, arloesol a chost-ffeithiol er mwyn ymgysylltu'n barhaus â thrigolion a rhanddeiliaid allweddol eraill a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, yn ogystal â helpu i wella ein henw da.

Mae'r Cyngor am sicrhau bod ei flaenoriaethau, ei werthoedd a'i uchelgeisiau yn cael eu cyfleu i bob un o'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ein trigolion, ein gweithlu, ein partneriaid a busnesau lleol, a'u bod yn eu deall.

Un o asedau gorau'r Cyngor yw ein henw da a barn y bobl amdanom. Mae cyfathrebu yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o amddiffyn a hyrwyddo enw da sefydliad. Mae sefydlu a chynnal ein henw da yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ymhlith y gymuned a hyder yn yr awdurdod.

O ran y cyd-destun ehangach, mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn newid. Mae cyllidebau'n lleihau a'r gweithlu'n crebachu, a bydd angen i ni ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd wahanol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae hyn yn golygu y bydd angen i benderfyniadau anodd gael eu gwneud, ac mae dewisiadau anodd ac amhoblogaidd yn anochel. Wrth i'r sefydliad newid ac ymateb i'r pwysau hwn, mae'n hanfodol ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol bob amser.

Yn ogystal â hyn, mae'r dirwedd gyfathrebu yn newid yn gyflym iawn. Llwyfannau cymdeithasol a digidol yw prif ddulliau cyfathrebu llawer o bobl erbyn hyn, yn ogystal â'u prif ffynhonnell o newyddion a gwybodaeth.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i adeiladu ar ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel adnodd allweddol i ymgysylltu a sgwrsio â'n cymunedau – yn hytrach na darlledu **atynt**.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn hollbwysig o ran helpu i ddylanwadu ar ymddygiad ac agweddau ein trigolion. Er enghraifft, rydym am i bobl ailgylchu mwy a gwastraffu llai, bod yn heini ac iach, cynyddu'r defnydd o barciau gwledig, teithio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus, bod yn effeithlon o ran ynni ac ati. Dim ond rhai ymddygiadau y gellir dylanwadu arnynt drwy gyfathrebu a rhannu negeseuon clir yw'r rhain.

Bydd cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn ein helpu i esbonio blaenoriaethau allweddol y sefydliad yn glir, a'u cyflawni. Mae'n bwysig ein bod yn adolygu, yn diwygio ac yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn anfon ac yn derbyn y neges gywir ar yr adeg gywir.

CYRRAEDD

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o sianeli i gyfathrebu â'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys dulliau cymdeithasol, digidol a thraddodiadol.

YMGYSYLLTU


Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgarwch cyfathrebu yn amserol, yn berthnasol, yn llawn gwybodaeth ac yn defnyddio iaith glir. Rydym am greu cynnwys diddorol i'n holl gynulleidfaoedd.

TROSI

Byddwn yn gweithio'n galed i newid ymddygiadau ac agweddau drwy ddarparu gwybodaeth berthnasol fel y gall ein cynulleidfaoedd wneud dewisiadau gwybodus ac ystyriol.

PWY YDYM A'R HYN A WNAWN

Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi'i leoli yn Nhŷ Penallta, Ystrad Mynach (gyda'r swyddogaethau Argraffu a Dylunio Graffeg wedi'u lleoli gerllaw yn Nhŷ Tredomen).



Mae'r tîm yn darparu cymorth cyfathrebu proffesiynol i'r sefydliad cyfan ac yn gallu cynnig amrywiaeth o wasanaethau pwrpasol i gleientiaid yn y meysydd canlynol:

RHEOLI'R CYFRYNGAU

Rydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo ac amddiffyn enw da y Cyngor, yn ogystal â sicrhau bod gan ein trigolion y wybodaeth ddiweddaraf. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn defnyddio dull gweithredu dynamig a blaengar o reoli'r cyfryngau mewn ffordd ragweithiol ac ymatebol. **Mae'n rhaid i bob ymholiad gan y cyfryngau gael ei drin gan y Tîm Cyfathrebu, a fydd yn ei gofnodi ac yn ymateb iddo gydag ymateb corfforaethol y cytunwyd arno. (Gweler Protocol y Cyfryngau – Atodiad 1)**

HYSBYSEBU

Yn unol â gofynion statudol, rydym yn cynnig gwasanaeth cywir, prydlon a phroffesiynol. Rydym yn sicrhau bod gwasanaethau hysbysebu yn cydymffurfio'n llawn drwy gynnig cyngor a chanllawiau lle bynnag y bo angen ac yn sicrhau'r gostyngiadau gorau drwy negodi effeithiol. **Mae'n rhaid i holl hysbysiadau'r awdurdod y telir amdanynt gael eu gosod drwy'r Tîm Cyfathrebu, a fydd yn goruchwyllo pob agwedd ar y broses o'u trefnu a'u gosod.**

YMGYSYLLTU Â DINASYDDION

Mae ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol yn hyrwyddo cyfathrebu dwyffordd, sy'n sicrhau bod trigolion yn gallu dylanwadu ar y ffordd rydym yn llunio ac yn darparu ein gwasanaethau. **Mae'n rhaid i unrhyw weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu y mae'r Awdurdod yn ymgymryd ag ef gael ei gyflawni ar y cyd â'r Tîm Cyfathrebu a'r Uned Polisi er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau y cytunwyd arnynt.**

RHEOLI DIGWYDDIADAU

Drwy arddangos gwasanaethau'r Cyngor mewn modd proffesiynol sy'n rhoi sylw gofalus i fanylder, rydym yn creu argraff dda wrth gynllunio digwyddiadau corfforaethol.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau corfforaethol megis agoriadau, lansiadau, ymweliadau Gweinidogol neu Frenhinol, gweithgareddau pwysig ac ati.

DYLUNIO GRAFFEG

Creu atebion dylunio proffesiynol, effeithlon, dychmygol a chost-effeithiol y gellir ymddiried ynddynt er mwyn helpu gwasanaethau'r Cyngor i dargedu eu cynulleidfaoedd a helpu cwsmeriaid i uniaethu â brand Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. **Dylai'r tîm mewnol ymgymryd â holl ofynion dylunio yr awdurdod er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau y cytunwyd arnynt (e.e. y Gymraeg, brandio corfforaethol, cydraddoldeb ac ati).**

CYFATHREBU MEWNOL

Hyrwyddo a meithrin gweithgarwch ymgysylltu mewnol drwy fabwysiadu dull gweithredu awdurdod cyfan drwy ddefnyddio sianeli cyfathrebu mewnol effeithiol. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau cyfathrebu mewnol er mwyn ymgysylltu'n barhaus â'r gweithlu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo.

RHEOLI YMGYRCHOEDD

Er mwyn creu ymgyrchoedd cyfathrebu effeithiol, mae angen eglurder, creadigrwydd a chymaint o sylw â phosibl i fanylder – ac rydym yn cynnig hyn oll gyda gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i bob cyllideb. Gall y Tîm Cyfathrebu gynnig arbenigedd wrth ddarparu ymgyrchoedd integredig effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli cyfathrebu a berchenogir ac a enillwyd.

CYFATHREBU MEWN ARGYFWNG

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag uwch-arweinwyr y sefydliad ac asiantaethau partner eraill mewn sefyllfaoedd argyfwng er mwyn sicrhau y caiff yr holl gyfathrebu ei gydlynu'n effeithiol.

GWASANAETHAU ARGRAFFU

Rydym yn darparu gwasanaethau argraffu o ansawdd uchel yn unol â therfynau amser, ac yn cynnig amrywiaeth lawn o alluoedd argraffu gan ddefnyddio'r dechnoleg argraffu ddiweddaraf ynghyd â thîm medrus ac ymroddedig. **Dylai'r tîm mewnol ymgymryd â holl ofynion argraffu yr awdurdod er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau y cytunwyd arnynt (e.e. y Gymraeg, brandio corfforaethol, cydraddoldeb ac ati).**

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rydym wedi llwyddo i greu sianel gyfathrebu ddwyffordd pellgyrhaeddol, gan feithrin rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol effeithiol gyda miloedd o ddilynwyr. Drwy ddatblygu strategaeth ddiddorol rydym wedi sicrhau ein bod yn un o'r cynghorau mwyaf blaenllaw yng Nghymru. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn gyfrifol am brif gyfrifon corfforaethol yr awdurdod a gall hefyd gynghori adrannau eraill ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

CYFEILLIO

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn gyfrifol am gynnal a meithrin y cysylltiadau partneriaeth hirsefydledig â Ludwigsburg (yr Almaen) a Pisek (Gweriniaeth Tsiec).



EIN HAMCANION CYFATHREBU

Drwy gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, dyma ein prif amcanion:

- Hysbysu ac ymgysylltu â thrigolion, busnesau, ymwelwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â nodau a blaenoriaethau allweddol y Cyngor, y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu a sut y gallant fod yn rhan o'r gwaith o lywio penderfyniadau.
- Cynnal brand a hunaniaeth cyngor cryf y gellir ei adnabod, gan ddefnyddio ymgyrchoedd cyfathrebu strategol i wneud hyn yn effeithiol.
- Hyrwyddo a chynnal enw da y Cyngor.
- Sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn ymgysylltu â'n gweithlu drwy weithgarwch cyfathrebu mewnol da, er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i gynrychioli a hyrwyddo'r Cyngor yn y gymuned.

SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN?

Mae'r dirwedd gyfathrebu yn newid yn barhaus, ac er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i arloesi, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Rhoi strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr ar waith sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r Cyngor – dyma nod y ddogfen hon.
2. Datblygu ein gweithgarwch cyfathrebu digidol ymhellach – rydym am greu cynnwys diddorol ar draws amrywiaeth o sianeli, yn enwedig sianeli digidol a chymdeithasol.
3. Llai o ddarlledu a mwy o gyfathrebu ac ymgysylltu dwyffordd – beth am i ni gael sgwrs go iawn â phobl go iawn.
4. Teilwra ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl, gan ddefnyddio dealltwriaeth i deilwra gweithgarwch i gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol yn fwy effeithiol.
5. Canolbwyntio mwy ar gyfathrebu cadarnhaol a rhagweithiol drwy fodel ymgyrchu – rydym yn gwneud llawer o bethau da yr hoffai pobl wybod mwy amdanynt.
6. Helpu ein cymuned i ddeall llywodraeth leol, gan gynnwys ein heriau – mae'n bwysicach nag erioed fod y gymuned yn ymwybodol o'r pwysau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu a'r angen i wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.
7. Cynnal dull strategol o gyfathrebu ac ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.

EIN HYMRWYMIAD CYFATHREBU 'YN HOLLOL GLIR'

Fel cyfathrebwyr effeithiol a phroffesiynol, byddwn bob amser yn ceisio cyflawni'r arfer orau a darparu gwasanaeth cyfathrebu clir, defnyddiol a llawn gwybodaeth ar gyfer y sefydliad cyfan.

- 'Yn Hollol Glir' - Rydym yn gwbl dryloyw a chlir
- 'Yn Hollol Glir' – Rydym yn mynd at y pwynt yn syth
- 'Yn Hollol Glir' – Rydym am sicrhau bod trigolion/staff/Cynghorwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir
- 'Yn Hollol Glir' – Mae ein neges yn syml a chaiff ei rhannu drwy ddefnyddio Cymraeg Clir/Saesneg Syml

Bydd ein gweithgarwch cyfathrebu 'Yn Hollol Glir' yn helpu i wneud y canlynol:

1. Cywiro pethau
2. Mynd i'r afael â chamsyniadau
3. Rheoli disgwyliadau cymunedol
4. Rhannu gwybodaeth a negeseuon anodd
5. Chwalu mythau



Mae ein dull gweithredu cyffredinol yn golygu y byddwn:

- Bob amser yn agored, yn onest, yn ddi-dduedd ac yn ffeithiol
- Yn cyfathrebu mewn modd amserol gyda gwybodaeth gryno a chyfredol
- Yn osgoi jargon lle bynnag y bo'n bosibl ac yn cyfathrebu mewn Cymraeg Clir/Saesneg Syml
- Yn ymgysylltu ac yn gwrandao mwy – nid darlledu yn unig – gan ein bod am annog llif cyfathrebu dwyffordd
- Bob amser yn ceisio sicrhau gwerth am arian ym mhopeth a wnawn
- Yn gwrandao ar adborth ac yn ceisio dealltwriaeth er mwyn helpu i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu
- Yn croesawu cyfathrebu digidol – yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol – ond ni fyddwn yn anghofio am bwysigrwydd sianeli mwy traddodiadol hefyd
- Yn dysgu, yn datblygu ac yn esblygu'n gyson er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol
- Yn gynhwysol ac yn hygyrch wrth gyfathrebu, gan ddefnyddio'r ieithoedd a'r fformatau mwyaf addas ar gyfer ein cynulleidfaoedd

EGWYDDORION SY'N SAIL I'R STRATEGAETH

Mae angen sail gadarn arnom, a chyfres o egwyddorion y cytunwyd arnynt sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhopeth a wnawn.

Dylai'r rhain fod yn sail i'n gweithgarwch cyfathrebu a dylent warantu bod ein gweithredoedd yn gadarn ac yn cyd-fynd ag egwyddorion y Cyngor.

STAFF YN GYNTAF

Dylid sicrhau bod staff yn cael digon o wybodaeth am faterion sy'n effeithio ar y sefydliad ac arnyn nhw fel cyflogaion. Mae sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth yn golygu y gallant chwarae rhan lawn yn ein hymdrech i fod yn gyngor gwych ac yn gyflogwr o ddewis. Yn ein holl weithgarwch cyfathrebu, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth cyn y cyfryngau a'r cyhoedd. Dim ond bryd hynny y gallwn ddangos bod ein staff yn cael eu gwerthfawrogi fel cyflogaion a llysgenhadon ar gyfer y Cyngor.

MAE CYFATHREBU DA YN GYFRIFOLDEB I BAWB

Mae pob cyflogai yn rhan o weithgarwch cyfathrebu, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol, fel rhan annatod o'i rôl. P'un a yw hyn yn cynnwys cyfathrebu mewnol neu allanol, mae angen i bob cyflogai gymryd cyfrifoldeb am sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol.

MAE CYFATHREBU MEWNOL EFFEITHIOL YN YSGOGI NEWID DIWYLLIANNOL AC YN GWELLA PERFFORMIAD

Ni chaiff cyfathrebu mewnol ei ystyried yn rhywbeth 'ychwanegol', yn weithgarwch gwirfoddol nac yn ffrainc pan fydd cyllidebau'n dynn. Hebdo, ni allwn fod y cyngor yr hoffem fod.

MAE ANGEN I REOLWYR GEFNOGI EU HYMRWYMIAD I GYFATHREBU

Er mwyn gwneud hyn, mae angen cymryd camau i chwalu unrhyw feddylfryd 'seilo' a all fodoli. Parodrwydd i ddefnyddio adnoddau cyfarwyddiaeth ac is-adrannol mewn ffordd wahanol er mwyn cyflawni cymaint o amcanion cyfathrebu â phosibl.

DULL CYFATHREBU DRWY YMgyrchu

Nid yw ein trigolion yn byw eu bywydau o fewn ffiniau sefydliadol. Efallai eu bod yn rhieni, yn ofalyddion, yn gymudwyr, yn entrepreneuriaid ac yn llawer mwy. Mae'n annhebygol eu bod yn ystyried eu hunain yn 'ddefnyddwyr gwasanaethau' neu'n 'gwsmeriaid' y Cyngor.

Bydd dull cyfathrebu drwy ymgyrchu strategol, sy'n ategu ein blaenoriaethau corfforaethol, yn ein helpu i ganolbwyntio mwy ar weithgareddau strategol a hyrwyddo amcanion y sefydliad.

Bydd yn helpu i roi llais clir i'r sefydliad – naratif cryf gyda rhai negeseuon allweddol cyffredinol, sef y pethau y mae'r sefydliad am i drigolion, busnesau ac ymwelwyr 'feddwl' amdanynt wrth feddwl am Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

BYDDWN YN:

- Cynllunio ymgyrchoedd ar gyfer cynulleidfaoedd sydd wedi'u diffinio'n glir, er mwyn sicrhau ffocws cliriach ar gwsmeriaid a grwpiau rhanddeiliaid, a thrwy hynny wella perthnasedd y wybodaeth y maent yn ei chael.
- Datblygu ein hymgyrchoedd gan ddefnyddio cyfres o weithgareddau cyfathrebu ag amcan neu thema cyffredin, a'u cynllunio gyda'r nod o ddylanwadu ar gysyniadau'r gynulleidfa neu ysgogi newid dymunol mewn ymddygiad.
- Newid y ffocws o allbynnau cyfathrebu (sylw yn y wasg, cyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol ac ati) i fuddiannau gwirioneddol ar gyfer y gymuned.

Bydd y sefydliad yn cynnal saith ymgyrch gyfathrebu strategol bob blwyddyn, a fydd â chysylltiadau clir â Chynllun Corfforaethol y Cyngor, yn cael eu gwerthuso'n llawn yn barhaus ac yn cefnogi saith Ymrwymiad allweddol y Cabinet.

Caiff yr ymgyrchoedd eu datblygu yn unol â model Gwasanaethau Cyfathrebu'r Llywodraeth, sy'n hyrwyddo pum maes datblygu sydd wedi'u diffinio'n glir; amcanion, cynulleidfa/dealltwriaeth, strategaeth, gweithredu/tactegau a sgorio/gwerthuso.

BYDD Y DULL GWEITHREDU HWN HEFYD YN EIN HELPU I DDATBLYGU EIN HYMGYRCHOEDD I WNEUD Y CANLYNOL:

- Canolbwyntio'n fwy ar ddulliau digidol a'r gynulleidfa, gan rymuso eraill i greu eu cynnwys eu hunain
- Gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau'r Tîm Cyfathrebu – gan ddefnyddio'r ymgyrchoedd i gyfleu negeseuon allweddol y Cyngor yn gryf
- Ymgorffori technegau gwerthuso cadarn i fesur effeithiolrwydd ac effaith
- Creu newid gwirioneddol – naill ai drwy gysyniadau neu newid gwirioneddol mewn ymddygiad

Bydd y dull ymgyrchoedd yn datblygu stori i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y blynnyddoedd nesaf, ac yn helpu i adeiladu 'brand' y Cyngor fel bwrdeistref sirol sydd â llawer i'w gynnig.

Nod y dull gweithredu fydd ategu Strategaeth Marchnata Lleoliad/Cyrchfan bresennol y Cyngor, a gaiff ei chyflawni gan ddim Marchnata ymroddedig sydd wedi'i leoli yn y gyfadrannau Cymunedau.

Mae marchnata Lleoliad/Cyrchfan yn cyfeirio at y gweithgarwch y mae sefydliad yn ymgymryd ag ef i wahaniaethu ei hun oddi wrth eraill a hyrwyddo ei nodweddion unigryw ei hun, a chaiff ei ddefnyddio'n benodol i ddenu mwy o dwristiaeth i'r ardal. Mae gan y math hwn o weithgarwch marchnata ddemograffeg cynulleidfa darged glir ac, yn aml, cynyddu refeniw yw'r brif nod.

Mae'r model ymgyrchu yn cefnogi'r dull gweithredu hwn drwy geisio cyfleu'r saith cysyniad allweddol sy'n gwneud Bwrdeistref Sirol Caerffili yn wahanol a hyrwyddo ei nodweddion unigryw – er enghraifft, bod Caerffili yn lle cadarn a bywiog i wneud busnes ac yn lle sy'n buddsoddi yn ei bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol.

DATBLYGU EIN HYMGYRCHOEDD CYFATHREBU INTEGREDIG AR GYFER 2019-2023

Bydd ein hymgyrchoedd cyfathrebu ar gyfer 2019/2023 yn cefnogi'r Amcanion Llesiant a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023 y Cyngor.

Bydd yr hymgyrchoedd yn cefnogi ein blaenoriaethau corfforaethol, yn ein helpu i ganolbwyntio mwy ar weithgareddau strategol ac yn hyrwyddo amcanion y sefydliad, sef:

'GWELLA ... BUDDSODDI ... YSBRYDOLI'

Cefnogi Amcan Llesiant Un – gwella cyfleoedd addysg i bawb

'LLE GWYCH I WNEUD BUSNES'

Cefnogi Amcan Llesiant Dau – galluogi cyflogaeth

'EICH CARTREF, EICH DYFODOL'

Cefnogi Amcan Llesiant Tri - mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella llesiant pobl.

'CYSYLLTU POBL, CYSYLLTU LLEOEDD'

Cefnogi Amcan Llesiant Pedwar – hyrwyddo system trafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n gwella cyfleoedd, yn hyrwyddo ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd

‘BYWYDAU IACH, MANNAU IACH’

Cefnogi Amcan Llesiant Pump – creu bwrdeistref sirol sy’n cefnogi ffordd iach o fyw, yn unol â’r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

‘CREU CYMUNEDAU GOFALGAR’

Cefnogi Amcan Llesiant Chwech – helpu dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu llesiant

‘TRAFODAETH CAERFFILI’

Cefnogi gwaith rhaglen trawsnewid busnes y Cyngor ac ymgysylltu â thrigolion ynghylch Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

DYLUNIAD DIGIDOL

Dros y degawd diwethaf, rydym wedi gweld chwyldro digidol. Mae pobl wedi’u cysylltu’n fwy nag erioed ac mae’r ffordd y maent yn chwilio am wybodaeth a newyddion ac yn eu cael wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i hyn.

Mae’r strategaeth hon yn pennu uchelgais clir i ddatblygu dull cyfathrebu digidol newydd.

Bydd angen i ni ddatblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu ac ymgysylltu â’n cynulleidfaoedd a’n rhanddeiliaid yn barhaus, er mwyn meithrin cydberthnasau cadarn, parhaol a chdyfuddiannol.

EIN HAMCANION DIGIDOL

Byddwn yn rheoli ein sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol yn effeithiol drwy eu cysylltu â’n hamcanion strategol a’n ffyrddiau gwaith.

Dyma ein prif amcanion:

- Cynhyrchu Trefnydd Cynnwys Digidol sy’n cynnwys dyddiadau allweddol ar gyfer gwybodaeth a mentrau cenedlaethol, lleol ac sy’n gysylltiedig â’r Cyngor. Bydd hyn yn ein galluogi i rannu negeseuon prydlon a pherthnasol â’n cynulleidfa darged gan ddefnyddio ein sianeli cyfathrebu digidol.
- Adeiladu rhwydwaith cryf o drigolion a rhanddeiliaid ar-lein i greu cyfalaf cymdeithasol cryf.
- Ymgysylltu â thrigolion mewn sgwrs ddwyffordd am ein gwaith a’u barn.
- Rhannu negeseuon gan ein partneriaid a’n rhanddeiliaid (Ysgolion, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru ac ati).
- Annog staff ac aelodau i gefnogi, hyrwyddo a chymryd rhan yn ein sgysiau ar-lein.

- Datblygu 'Dangosfwrdd Digidol' er mwyn ein galluogi i adolygu a monitro'r defnydd o'n sianeli digidol presennol a'u heffeithiolrwydd. Byddem yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried rhoi'r gorau i'r sianeli hynny sy'n aneffeithiol ac ystyried defnyddio sianeli amgen.
- Llunio adroddiad/crynodeb digidol misol o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ar ein sianeli digidol. Beth fu'n llwyddiannus a beth na fu'n llwyddiannus.

ARCHWILIAD CYFRYNGAU DIGIDOL

Bydd y Tîm Cyfathrebu yn archwilio pob sianel cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'i rheoli gan faes gwasanaeth er mwyn adolygu caniatadau mynediad, amllder ac ansawdd negeseuon. Nodi gwasanaethau ychwanegol a fyddai'n elwa ar y cyfryngau cymdeithasol. Nodi defnydd ychwanegol o sianeli cyfryngau cymdeithasol, e.e. Instagram, WhatsApp, Pinterest ac ati.

Ystyried cyfrifon cyfryngau cymdeithasol cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd, e.e. i gefnogi uchelgais y Cyngor o fabwysiadu meddylfryd dyluniad digidol a grymuso trigolion i fynd ar-lein a chefnogi trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu lleol o ran materion yn y gymdogaeth megis baw cŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu wybodaeth am wasanaethau lleol. Gellir defnyddio hyn i helpu Gwasanaethau Cwsmeriaid i ddellio'n uniongyrchol â chwynion drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

SUT MAE'R STRATEGAETH HON YN CYD-FYND Â'R DARLUN EHANGACH?

Nid yw'r strategaeth hon yn bodoli ar ei phen ei hun. Mae wedi'i dylunio i ategu a gwella amrywiaeth o strategaethau allweddol eraill sy'n cael eu cyflawni ar draws y sefydliad megis strategaeth farchnata'r Cyngor, y Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Llesiant, yn ogystal ag Ymrwymadau'r Cabinet.

CEFNOGI YMRWYMIADAU'R CABINET

Mae Cabinet y Cyngor wedi cytuno ar gyfres o ymrwymadau a gwerthoedd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, felly mae'n bwysig bod ein gweithgareddau cyfathrebu yn gyson â'r egwyddorion hyn.

YMRWYMIADAU'R CABINET:

- Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i ddiogelu swyddi a gwasanaethau yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni.
- Byddwn yn adeiladu ar enw da Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel awdurdod lleol arloesol sy'n perfformio'n dda.
- Byddwn yn sicrhau bod gennym weithlu brwdfrydig a llawn cymhelliant.
- Byddwn bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu gwerth am arian ym mhopeth a wnawn.

- Byddwn yn helpu i ddiogelu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth allweddol.
- Byddwn bob amser yn croesawu adborth ac yn ystyried barn trigolion, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Byddwn yn agored, yn onest ac yn dryloyw ym mhopeth a wnawn.

CEFNOGI AMCANION STRATEGOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru bennu a chyhoeddi cyfres o flaenoriaethau o'r enw Amcanion Gwella, ond mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn gosod gofyniad cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant.

Gan fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddwy ddeddfwriaeth, mae awdurdodau (gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) yn ymdrin â'r ddau ofyniad fel un canlyniad, i gyhoeddi un gyfres o Amcanion Llesiant ac mae Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cymeradwyo'r dull gweithredu hwn.

Mae Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer 2018-2023 bellach wedi'u cytuno a bydd y rhain yn cael dylanwad allweddol ar weithgareddau'r Tîm Cyfathrebu – yn enwedig o ran y gwaith 'Ymgyrchu' sydd wedi'i gynllunio dros y tair blynedd nesaf.

Bydd ein gwaith cyfathrebu yn gyson â'r chwe amcan allweddol hyn ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei wneud i gyflawni'r rhain yn y gymuned.

GWELLA CYFATHREBU MEWNOL

Mae llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol ar draws y sefydliad.

Mae'r awdurdod yn cydnabod y gall ymgysylltu mewnol effeithiol ac ystyrlon gynnig manteision sylweddol o ran morâl, cynhyrchiant ac ymdeimlad o feithrin ethos 'Tîm Caerffili'.

Rydym hefyd yn cydnabod mai ein gweithlu rhagorol yw ein hased fwyaf ac mae llawer o gyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn byw yn y Fwrdeistref Sirol, felly maent yn eiriolwyr ac yn llysgenhadon gwerthfawr i'r awdurdod.

Mae llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Llesiant, yn ogystal ag Ymrwymadau newydd y Cabinet, felly mae'n bwysig bod staff yn cael eu hannog i ddatblygu eu cyfres eu hunain o werthoedd ac ymddygiadau sy'n cyd-fynd â'r safbwynt corfforaethol cyffredinol ac yn ei adlewyrchu.

Byddai creu fframwaith egwyddorion ac ymddygiadau newydd ar gyfer staff fel 'darn olaf y jig-so', a bydd yn rhoi ymdeimlad clir o ddiben a chyfeiriad i'r sefydliad ar bob lefel.

Y LLWYBR I 2022

CBSC >>> 2022 >

Bydd cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn elfen hollbwysig o'r gwaith o gyflawni rhaglen trawsnewid busnes y Cyngor.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn chwarae rôl flaenllaw yn y rhaglen drawsnewid hon ac mae llawer o waith wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf fel rhan o'r agenda hon, gan gynnwys:

AROLWG STAFF - Cynhaliwyd arolwg staff cynhwysfawr yn 2017 a chafodd yr adborth ei ddarparu i gyflogeion mewn sawl ffordd (mewnwyd, diweddariadau drwy e-bost, crynodebau wedi'u hargraffu, briffiadau tîm).

SIOEAU TEITHIOL STAFF - Cynhaliwyd chwe sioe deithiol staff corfforaethol i gyflogeion ar bob lefel ar draws yr awdurdod yn ystod gwanwyn 2018. Gwnaed hynny yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer staff o'r Gyfadran Cymunedau yn 2016.

ARCHWILIO SIANELI CYFATHREBU MEWNOL - Cynhaliwyd archwiliad o'r dulliau cyfathrebu mewnol presennol ar draws pob Pennaeth Gwasanaeth.

MEWNRWYD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI - Sefydlwyd gweithgor traws-gyfadran yn hwyr yn 2016 er mwyn ysgogi'r gwaith o ddatblygu Mewnwyd newydd i'r staff yn lle hen fersiwn a oedd wedi dyddio. Yna, datblygodd y Gwasanaethau TG safle Mewnwyd peilot a gafodd ei dreialu a'i lansio yn 2018.

BLOGIAU - Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro eisoes wedi sefydlu blog rheolaidd ac mae hyn wedi'i groesawu'n eang gan y staff fel ffordd o gael diweddariadau a dysgu mwy am yr unigolyn y tu ôl i'r blog ac nid y 'llinell gorfforaethol' yn unig. Mae Arweinydd y Cyngor a gweddill y Tîm Rheoli Corfforaethol bellach yn cynhyrchu blogiau rheolaidd hefyd, a'r cam nesaf yw archwilio'r defnydd o flogiau fideo.

'GOFYN Y PRIF WEITHREDWR' - Lansiwyd y fenter hon ym mis Ionawr 2017 er mwyn galluogi'r staff i ofyn cwestiynau, gwneud awgrymiadau, codi pryderon neu roi adborth. Gellir gwneud hyn ar-lein drwy gyfeiriad e-bost dynodedig neu drwy gyflwyno 'cardiau post' wedi'u hargraffu ar gyfer staff nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur.

SAFONAU GWASANAETHAU CWSMERIAID - Mae'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi datblygu cyfres o safonau gwasanaethau cwsmeriaid newydd sy'n cael eu mabwysiadu gan bob aelod o staff yr awdurdod (nid dim ond staff gwasanaethau cwsmeriaid).

YMRWYMIADAU'R CABINET - Gweithiodd yr Uned Gyfathrebu yn agos gyda'r Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn 2017 ar ddarn allweddol o waith i ddatblygu gweledigaeth a chyfres glir o werthoedd ar gyfer y sefydliad yn y dyfodol.

Y Camau Nesaf.....

CYLCHLYTHYR STAFF - Cydnabyddir y byddai datblygu cylchlythyr staff newydd (fersiwn wedi'i hargraffu a fersiwn ddigidol) yn ychwanegiad buddiol at ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu – yn enwedig ar gyfer staff sy'n anodd eu cyrraedd.

GWOBRAU CYDNABOD STAFF - Roedd gwobrwyo a chydabod staff (neu ddiffyg hynny) yn thema allweddol a ddeilliodd o'r sioeau teithiol diweddar a sianeli adborth eraill, felly mae'r Cyngor yn awyddus iawn i ddatblygu menter newydd i gydnabod staff ar draws y sefydliad yn ffurfiol.

GOVDELIVERY - Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio un o gynhyrchion Granicus a gydnabyddir yn eang, sef GovDelivery. Caiff ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer cynulleidfaoedd allanol ar hyn o bryd (e.e. swyddi, digwyddiadau, tarfu ar wasanaethau, diweddariadau traffig, cau ysgolion ac ati), ond mae'r cynnyrch yr un mor effeithiol i'w ddefnyddio'n fewnol.

SGRINIAU PLASMA - Mae amrywiaeth o sgriniau teledu a sgriniau plasma gwahanol wedi'u gosod mewn nifer o safleoedd y Cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, derbynfeydd corfforaethol, ardaloedd gorffwys i staff mewn depos ac ati, ond ar hyn o bryd, nid oes unrhyw strategaeth gyffredinol i sicrhau cysondeb o ran ansawdd, amllder nac amseroldeb y wybodaeth y maent yn ei harddangos.



GWERTHUSO A MESUR

Mae'r Uned Gyfathrebu, yn yr un modd ag adrannau eraill ar draws y sefydliad, yn defnyddio Cynlluniau Gwasanaeth a'r adnodd monitro ar-lein, Ffynnon, i werthuso perfformiad yn erbyn cyfres o safonau meincnodi.

Y systemau perfformiad hyn sy'n chwarae rôl allweddol wrth fesur perfformiad presennol a phennu targedau a nodau uchelgeisiol ar gyfer gwella'r gwasanaeth a'r allbwn a ddarperir gan y Tîm Cyfathrebu ar draws y Cyngor.

Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i gefnogi'r strategaeth hon, sy'n pennu cerrig milltir allweddol o ran darparu ein gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf. Caiff trefnwyr chwarterol manylach eu datblygu i lywio llwyth gwaith y tîm a chaiff y rhain eu bwydo i mewn i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor a chyfarfod CDP y Cabinet i'w ystyried bob chwarter.

Dylai ffocws ar bwysigrwydd monitro a gwerthuso fod wrth wraidd yr holl waith y mae'r Uned Gyfathrebu yn ymgymryd ag ef.

FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

Mae'r Tîm Cyfathrebu a'i weithgareddau wedi'u rhwymo gan God Ymarfer a Argymhellir Llywodraeth Cymru ar Gyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi ein rhwymo gan gyfansoddiad y Cyngor ei hun ynghyd â'r gwahanol bolisiau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y sefydliad.

MANYLION CYSWLLT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH

STEVE PUGH (RHEOLWR CYFATHREBU)

01443 864264

pughs@caerffili.gov.uk

SARENA FORD (UWCH-SWYDDOG CYFATHREBU)

01443 863218

fords1@caerffili.gov.uk

www.caerffili.gov.uk